

## Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-09-01(min)

### COFNODION

**Dyddiad:** Dydd Mercher, 6 Mehefin 2001

**Amser:** 2.00 i 4.40pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Yn bresennol:** **Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Kirsty Williams (Cadeirydd)      Brycheiniog a Sir Faesyfed

Brian Gibbons      Aberafan

Brian Hancock      Islwyn

Jane Hutt (Gweinidog)      Bro Morgannwg

Dai Lloyd      Gorllewin De Cymru

David Melding      Canol De Cymru

Lynne Neagle      Tor-faen

Rod Richards      Gogledd Cymru

#### **Swyddogion**

Sarah Beaver      Adran Gyllid yr NHS

Dr Ruth Hall      Prif Swyddog Meddygol

Ann Lloyd      Cyfarwyddwraig, NHS Cymru

Helen Thomas      Grwp Gofal Cymdeithasol

Graham Williams      Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

#### **Ysgrifenyddiaeth:**

Jane Westlake      Clerc y Pwyllgor

Claire Morris      Dirprwy Glerc y Pwyllgor

### **Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Geraint Davies ac Ann Jones. Ni chafwyd unrhyw amnewidiadau.

1.2 Atgoffwyd yr aelodau o'r gofyniad, o dan Reol Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw fuddiannau cyn cymryd rhan yn y gweithrediadau. Gwnaed y datganiad canlynol:

Dai Lloyd, Meddyg Teulu ac aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

## **Eitem 2: Adroddiad Misol y Gweinidog**

### **Papur: HSS-09-01(p.1)**

2.1 Gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol fel ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau:

- Yr oedd y Grwp Newid Strwythurol yn ystyried penodi Grwpiau Iechyd Lleol fel cyrff iechyd o dan Ddeddf Iechyd 1999. Cadarnhaodd Cyfarwyddwraig yr NHS bod y grwp hefyd yn ymchwilio i weld a fyddai angen deddfwriaeth sylfaenol, o ystyried amrywiaeth y cyfrifoldebau sydd gan yr awdurdodau iechyd ar hyn o bryd.
- Byddai'r Rhaglen Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) ar gyfer Practisau Meddygol Cyffredinol yn creu cysylltiadau â phractisau ac ymarferwyr unigol.
- Cydnabuwyd y gefnogaeth drawsbleidiol dros symud at amseroedd aros. Yr oedd trafodaethau'n cael eu cynnal â'r NHS i sicrhau eu hymrwymiad fel y gellid gosod targedau rhesymol. Yr oedd y Gweinidog yn disgwyl cyhoeddi'r cynigion yn deillio o'r trafodaethau hynny ym mis Gorffennaf.
- Nid oedd targed ar gyfer lleihau lefel rhagnodi ond gellid ystyried gweithredu argymhellion Grwp Gorchwyl a Gorffen y Practisau Rhagnodi fel fframwaith ar gyfer lleihau. Cylch gwaith y Grwp oedd edrych ar ragnodi mewn gofal sylfaenol yn unig. Nid edrychodd ar ragnodi mewn ysbytai.
- Bu amddifadedd ac anfantais yn feini prawf allweddol wrth asesu cynigion ar gyfer y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd. Yn awr rhoddir ystyriaeth i sut y gellid datblygu'r rhaglen y flwyddyn nesaf.
- Disgwyliwyd y byddai elfennau cyntaf y Fenter Gofal Llygad ar gael yn ystod y misoedd nesaf. Byddai'r Gweinidog yn rhoi gwybod i'r Aelodau o'r dyddiad penodol yn fuan.
- Disgwyliwyd i Raglen Sgrinio Retinopathi Cymru Gyfan gael ei chyflwyno ledled Cymru ar ôl yr hydref
- Yn ddiweddar cyhoeddodd y Cynulliad gylchlythyr i bob awdurdod lleol yn eu hysbysu o'r gweithdrefnau statudol y byddai'n rhaid iddynt eu dilyn bellach ar gyfer mabwysiadu rhwng gwledydd. Byddai copi yn cael ei ddsbarthu i'r Aelodau.
- Ni chredwyd bod unrhyw wahaniaeth rhwng yr awdurdodau lleol yn y ffordd yr oeddent yn ymdrin â'r pwnc o fabwysiadu plant o wledydd tramor. Byddai gwybodaeth yn cael ei chanfod i'r Aelodau.
- Nid oedd y ffigurau ar gyfer nifer y bobl oedd yn dymuno mabwysiadu plant yng Nghymru ar gael yn ganolog ar hyn o bryd ond byddent ar gael pan fyddai'r Gofrestr Fabwysiadu'n llwyr weithredol.
- Rhagwelwyd, ar ôl cwblhau'r ymarfer ymgynghori y gofynnodd y Pwyllgor amdano yn ei gyfarfod ar 7 Mehefin 2000, y byddai'r Rheoliadau Plant (Diogelwch rhag Troseddwyd) (Diwygio) (Cymru) diwygiedig yn cael eu hailgyflwyno i'r Cyfarfod Llawn ym mis Hydref.
- Yr oedd camau'n cael eu cymryd i leihau unrhyw danwario ar iechyd i'r eithaf. Yn y dyfodol byddai angen i Ymddiriedolaethau ragweld eu gwariant yn gynnar mewn ymdrech i ddefnyddio adnoddau yn y modd mwyaf hyblyg.

2.2 Rhoddodd Brian Gibbons grynodedb o'r newyddion diweddaraf ar Grwp Llywio'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru. Yr oedd y Grwp yn cynnwys 15 o aelodau allanol, yn cynrychioli llywodraeth leol, y gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau amrywiol yn ymwneud ag anghenion pobl hyn. Cyfarfu'r grwp am y tro cyntaf ar 4 Mehefin a byddai'n comisiynu ymchwil bellach mewn sawl maes. Bwriedir cynnal cynhadledd ddechrau'r hydref, a'r gobaith yw llunio'r strategaeth rywbryd ar ddechrau/canol y gwanwyn y flwyddyn ganlynol.

2.3 Cadarnhaodd y Prif Swyddog Meddygol yn gyffredinol bod defnydd cymharol uchel o wasanaethau iechyd yng Nghymru y pen. Byddai'n darparu data cymharol ar iechyd yng Nghymru o gymharu â llefydd eraill yn y DU.

2.4 Hefyd gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Croesawyd cyflwyno'r rhwydwaith telathrebu strategol newydd i'r grwp Practisau Meddygol Cyffredinol ond yr oedd yn bwysig y gwelwyd TGCh fel arf i gynorthwyo'r person proffesiynol i ddarparu gwasanaeth o safon. Ni ddylai leihau'r amser sydd ar gael i gleifion ymgynghori'n uniongyrchol â'u meddygon teulu.
- Cafwyd peth pryder i ddechrau ymysg meddygon teulu na fyddai systemau TG oedd newydd eu prynu yn cyd-fynd â'r Rhaglen. Cadarnhaodd y Gweinidog bod hyblygrwydd yn y Rhaglen felly ni ddylai problemau godi.
- Gofynnwyd am nodyn esboniadol ar y paragraffau technegol yn ymwneud â thelathrebu. Gofynnodd yr Aelodau a allai materion technegol yn y dyfodol hefyd gynnwys nodyn esboniadol.
- Mynegwyd pryder na ddylid gwyrddroi blaenoriaethau clinigol er mwyn lleihau rhestrau aros, gyda'r gweithdrefnau hawsaf yn cael eu gweithredu gan y byddai hyn yn effeithio ar y ffigurau.
- Ceisiwyd cael eglurhad ar pwy allai gael mynediad i'r Fenter Gofal Llygad a'r broses o wneud hynny.
- Mynegwyd pryder ar nifer isel y plant a fabwysiadwyd yng Nghymru o gymharu â Lloegr.
- Gofynnwyd am wybodaeth ystadegol ar nifer y bobl o dan 18 oedd yn cael eu cadw mewn carchardai a ffurfiau eraill o gadwraeth, a graddau darpariaeth yr awdurdodau lleol o unedau diogel.

2.5 Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ar y materion a godwyd gan yr Aelodau ar Reoliadau arfaethedig y Comisiynydd Plant. Atodir copi yn Atodiad A.

2.6 Mewn ymateb i'r datganiad, gofynnodd yr Aelodau os gallai'r rhesymau dros ganiatáu terfyn amser o 3 mis ar gyfer olrhain argymhellion mewn adroddiad Comisiynydd gael eu cyhoeddi'n eang fel na cheir unrhyw gamddealltwriaeth bod y mis ychwanegol yn unrhyw adlewyrchiad o bwysigrwydd.

### Gweithredu

- Rod Richards i gael copi o'r papurau yn ymwneud â Grwp Gorchwyl a Gorffen Practisau Rhagnodi.
- Y Prif Swyddog Meddygol i ddarparu data cymharol ar iechyd yng Nghymru o gymharu ag ardaloedd eraill yn y DU.
- Nodyn esboniadol i gael ei ddarparu ar delathrebu (para 1.3 yr adroddiad).
- Byddai esboniad yn cael ei roi ar argaeledd archwiliadau llygad i gleifion nad oeddent yn y grwpiau a nodwyd a gyfeiriwyd at optometrydd gan feddyg teulu.
- Ffigurau i gael eu darparu ar nifer y rhai dan 18 oed o Gymru a gedwir mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr.
- Copi o'r canllaw ar fabwysiadu rhwng gwledydd i gael ei ddsbarthu.

### **Eitem 3: Iechyd a Lles Plant**

## **Papur: HSS-09-01(p.2)**

3.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem a phwysleisio pwysigrwydd bod gwaith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar amcanion clir a realistig. Yr oedd angen iddo ddewis maes lle gallai ychwanegu gwerth a gwneud gwahaniaeth.

3.2 Cadarnhaodd y Gweinidog bod yr holl fentrau newydd yn cynnwys projectau hybu iechyd yn seiliedig ar dystiolaeth a'u bod wedi'u gwerthuso.

3.3 Gwnaeth yr Aelodau'r pwyntiau canlynol:

- Cytunwyd na ddylai'r Pwyllgor ailadrodd gwaith arall.
- Gwelwyd y teulu fel dylanwad allweddol ar iechyd plentyn ar gyfer ystyried hybu iechyd plant o oedran ysgol.

3.4 Byddai angen i'r Pwyllgor edrych yn ddiweddarach ar wasanaethau trydyddol pan fyddai adroddiad ymchwiliad y Bristol Royal Infirmary ac adolygiad Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru o wasanaethau trydyddol ar gael. Nodwyd ei bod yn debygol y byddai Is-Bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc yn ystyried plant ag anghenion addysgol arbennig.

3.5 Cytunwyd felly y byddai'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar iechyd plant o oedran ysgol. Gallai hyn gynnwys rhai agweddau ar anghenion addysgol arbennig ac anabledau, fel darparu therapi.

3.6 Byddai swyddogion y Cynulliad yn gwrandao ar sylwadau sefydliadau yn y sector gwirfoddol sy'n cynrychioli plant cyn darparu cyngor pellach i'r Pwyllgor ar y meysydd i'w hadolygu a'r rhaglen waith y gall fod ei hangen i gwblhau'r astudiaeth yn ystod sesiwn yr hydref.

3.7 O ystyried effaith addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd ar iechyd a lles plant, cytunwyd i wahodd y Pwyllgorau hynny i enwebu cynrychiolydd i gymryd rhan yn y trafodaethau.

### Gweithredu

- Swyddogion i ymgynghori â'r sector gwirfoddol cyn drafftio cylch gorchwyl a rhaglen waith i'r Pwyllgor.
- Y Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeiryddion Pwyllgorau Addysg a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Leol a Thai a'r Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth a'u gwahodd i enwebu cynrychiolydd.

## **Eitem 4: Cyllideb 2002-2003**

### **Papur: HSS-09-01(p.3)**

4.1 Amlinellodd y Gweinidog y meysydd canlynol ar gyfer buddsoddiad parhaus:

- Gwasanaethau cardiaidd a chanser
- Anghydraddoldebau iechyd
- Iechyd meddwl
- Recriwtio a chadw nyrsys
- Cyflwyno addysg feddygol i israddedigion
- Capasiti, o ran gwelyau a staffio

- Projectau cyfalaf.

Dywedodd y byddai angen ystyried cost gofal nyrsio am ddim ac argymhellion grwp y Gweithlu Gofal Cymdeithasol hefyd i sicrhau bod agwedd gwasanaethau cymdeithasol y gyllideb yn gadarn. Hefyd rhaid cofio anghenion y sector gwirfoddol. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn chwilio am arweiniad gan y Pwyllgor ar flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

4.2 Nododd yr Aelodau y meysydd canlynol i'w hystyried:

- Byddai angen buddsoddi yn y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol (NSFs), fel clefyd y siwgr, iechyd meddwl a'r Strategaeth Gweithredu Gwasanaethau Cardiaidd. Mynegwyd pryder nad oedd y meddygon teulu'n gallu ymdopi â'r baich gwaith presennol heb ymateb i'r agenda newydd a grëwyd gan NSF.
- Yr oedd angen mynd i'r afael â materion trawsbynciol, e.e. yr effaith sylfaenol a gafodd tai ar iechyd.
- Yr oedd goblygiadau capasiti'n gysylltiedig ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau, fel darparu ffisiotherapyddion, therapyddion lleferydd (yn enwedig yn Gymraeg), ac ati.
- Ystyriaeth o ofynion NICE mewn perthynas â thriniaethau cyffuriau a therapïau newydd.
- Er mwyn hwyluso'r newidiadau a nodwyd yn *Gwella Iechyd yng Nghymru*, dylid ystyried adolygu pa gyfran o'r gyllideb a ddyrannwyd yn uniongyrchol i awdurdodau iechyd a beth a gadwyd yn ganolog.
- Dylid cadw'r Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd am ychydig flynyddoedd.
- Os byddai'r NHS yn dod yn sefydliad a arweinir gan ofal sylfaenol yna yr oedd angen buddsoddi'n helaeth yn y Strategaeth Gofal Sylfaenol.

4.3 Cadarnhaodd y Gweinidog:

- Bod dadansoddiad o wariant ar ddarparu gwasanaethau sylfaenol/cymunedol yn cael ei gynnal ac y rhoddir adroddiad i'r Pwyllgor ar y canlyniadau.
- Fel rhan o'r NSF coronari, byddai angen cael cynigion gan Ymddiriedolaethau a byddai'n rhaid i'r rhain arddangos ymagwedd gyfannol tuag at fynd i'r afael â chlefyd y galon, yn cynnwys gwasanaethau adsefydlu.
- Nid oedd yn bosibl nodi cost diddymu'r awdurdodau iechyd tan y byddai'n hysbys beth fyddai'n cymryd eu lle. Nodir yr opsiynau ar gyfer cam nesaf yr ymgynghoriad.

4.4 Caiff papur safbwynt ei baratoi yn awr ar gyfer trafodaeth bellach ar 4 Gorffennaf.

### Gweithredu

- Byddai adroddiad ar iechyd a diogelwch adeiladau'r NHS yn cael ei ddarparu.

### **Eitem 5: Cofnodion Cyfarfod 16 Mai 2001**

**Papur: HSS-08-01(min)**

5.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod, yn amodol ar ddiwygio paragraff 4.4 i ddarllen, "Cefnogodd aelodau eraill yr egwyddor *a derbyniodd rhai y rheidrwydd*, er y mynegwyd rhai pryderon..."

### **Eitem 6: Unrhyw Fater Arall**

6.1 Mewn ymateb i gwestiwn gan Rod Richards yn ymwneud â swyddi ymgynghorol ychwanegol, cadarnhaodd y Gweinidog os caiff uwch feddyg sydd eisoes yn gyflogedig ei ddyrchafu i swydd newydd, disgwyliad i'r Ymddiriedolaeth ddefnyddio'r arian gwreiddiol i gyflogi meddyg yn ei le. Ni ddylid defnyddio'r arian at ddibenion eraill.

6.2 Dywedodd Cyfarwyddwraig NHS Cymru bod yr Ymddiriedolaethau'n llwyr ymwybodol o hyn ac y byddai'n monitro hyn yn ei chyfarfodydd adolygu arfaethedig â'r Ymddiriedolaethau.

### Gweithredu

- Darperir y wybodaeth ddiweddaraf ar ôl cyfarfodydd adolygu'r Ymddiriedolaeth.

**Atodiad A**

### **DATGANIAD AR REOLIADAU ARFAETHEDIG Y COMISIYNYDD PLANT**

- Gan fod cyfeirio at Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cynnwys rhwymedigaethau cytundeb rhyngwladol, yr wyf wedi ymgynghori â Llywodraeth y DU yn unol â'r Memorandwm Dealltwriaeth. Oherwydd Etholiad Cyffredinol San Steffan nid wyf wedi cael ateb eto, ond byddaf yn adrodd i chi cyn gynted â phosibl. Erys ein bwriad i gyflwyno'r rheoliadau hyn i'r cyfarfod llawn ym mis Gorffennaf.
- Yr wyf wedi ystyried y farn a ddatganwyd ar geisiadau ôl-weithredol ac wedi penderfynu, at ei gilydd, na ddylid pennu terfyn amser. Felly, os bydd y mater yn gysylltiedig â digwyddiad a ddigwyddodd mewn perthynas ag unigolyn pan oedd yn blentyn, gall y Comisiynydd ymarfer ei swyddogaethau o ran y mater hwnnw, faint bynnag yw oedran yr unigolyn erbyn hyn. Mater i'r Comisiynydd, yn ôl haeddiant pob achos unigol, fydd penderfynu a yw ymarfer ei swyddogaethau yn ddefnydd priodol o adnoddau.
- Yr wyf wedi ailystyried a ddylai'r Comisiynydd orfod rhoi rhesymau dros benderfynu peidio ag archwilio achos a phenderfynwyd y dylai, er tryloywder.
- Yr wyf yn parhau i fod yn argyhoeddedig fod 3 mis yn derfyn amser priodol ar gyfer olrhain argymhellion mewn adroddiad. Fel yr esboniwyd yn flaenorol, bydd adroddiadau ac argymhellion y Comisiynydd yn ymwneud â materion polisi mwy strategol neu ag achosion unigol sydd â goblygiadau ehangach ar gyfer plant yng Nghymru. Felly, mae'n debygol y bydd cynnwys ei adroddiadau a'i argymhellion yn gymhleth ac yn eang eu cwmpas, o bosibl yn golygu goblygiadau ar gyfer nifer o gyrff gwahanol. Er enghraifft, wrth ymateb i adroddiad ar y Cynulliad, gallai fod yn ddymunol cynnwys pwyllgor pwnc. Nid yw'n debygol y gellir cyflawni hyn o fewn terfyn amser byrrach. Er mwyn cael y math o ymateb manwl, ystyriol sy'n briodol ar gyfer argymhellion o'r fath, credaf mai 3 mis yw'r terfyn amser rhesymol byrraf.
- Rydym wedi llunio geiriad priodol ar gyfer y rheoliadau mewn perthynas ag adferiad posibl cymorth ariannol gan y Comisiynydd. Mae'r darpariaethau yn y rheoliadau'n sicrhau bod unrhyw adferiad yn gyfyngedig i symiau a delir gan bartion eraill, y bwriedir iddynt dalu'r gost resymol o gymorth ariannol a ddarperir gan y Comisiynydd. Ni fydd y Comisiynydd yn gallu adfer ei gostau o unrhyw ddyfarniadau

iawndal neu dâl digolledu. Comisiynydd.

- Hefyd hoffwn egluro unrhyw ddryswch a allai fod yn parhau ers y cyfarfod diwethaf ynghylch a allai'r Comisiynydd helpu plant mewn meysydd nad oeddent o fewn gwasanaethau plant yn benodol. Gall yn bendant; dyna un o brif gyflawniadau Deddf Comisiynydd Plant Cymru.